

PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 3 HYDREF 2019

Yn Cynghorydd Howells(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Henshaw, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill,
Robson, Sattar a/ac Stubbs

30 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Simmons.

31 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

32 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

33 : DIWYLLIANT YNG NGHAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd; Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau; Jon Day - Rheolwr Gweithredol a Ruth Cayford – Rheolwr Diwylliant a Diwydiannau Creadigol i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai rhan gyntaf gwaith y Pwyllgor o graffu'n fras ar rôl gyfredol ac i'r dyfodol Diwylliant yn Economi Caerdydd oedd yr eitem hon Mae diddordeb penodol gan y Pwyllgor mewn archwilio'r hyn y mae angen i'r Cyngor a phartneriaid ei wneud i sicrhau ffordd gynaliadwy ymlaen ar gyfer diwylliant yng Nghaerdydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ynddo dywedodd bod hyn yn ddarn pwysig o waith, a osododd seiliau meysydd gwaith eraill y Pwyllgor. Roedd dau beth i geisio eu cyflawni; i sicrhau bod gan leoliadau ddyfodol gwerthfawr a chynaliadwy ac i roi i sectorau diwylliannol/celfyddydau creadigol lais go iawn yn y broses o wneud penderfyniadau yn y Cyngor. Ychwanegodd fel ymwadiad nas oes digon o arian i wneud yr hyn oedd am ei wneud ond roedd yn falch nad oedd y Cyngor yn cau'r maes i'r sector ac yr oedd yn gweithio i greu dyfodol cynaliadwy i leoliadau.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar Ddiwylliant yng Nghaerdydd ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt:

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Pafiliwn Ieuencid yn Butetown a gofynnodd nhw a oedd digon o adnoddau i ddarparu staff a chymorth ar gyfer pobl ifanc. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn rhan o bortffolio'r Cynghorydd Merry, ond dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n hapus i edrych ar ffyrdd y mae partneriaethau cyfredol yn cael eu

defnyddio i hyrwyddo gweithgareddau yn Butetown ac y byddai'n cael trafodaeth gyda'r Cynghorydd Merry. Hefyd nododd swyddogion fod ymgysylltiad â phartneriaid eraill i weld beth y gellir ei wneud i gefnogi pobl ifanc.

Nododd yr Aelodau fod trefnwyr y Triathlon yn edrych yn flaenorol am oddeutu £8,000 fel cyfraniad at ffilmio'r Triathlon ym Mae Caerdydd a gofynnion nhw a oedd cynnydd wedi bod ar hyn. Esboniodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi cwrdd â threfnwyr y Triathlon i drafod sut y gallent wneud iddo weithio, nid oedd wedi clywed yn ôl ganddynt eto ond pe baent yn gallu ei wneud yn ddichonadwy'n ariannol wedyn gallai'r Cyngor gynnig cymorth swyddogion.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld cyfeiriad at ddigwyddiad arddangos a gofynnion nhw sut y byddai hyn yn cyd-fynd â digwyddiadau diwylliannol llai o gwmpas y Ddinas fel y gallai pawb gyfrannu ato a chymryd rhan ynddo. Dywedodd yr Aelod Cabinet na fyddai'r digwyddiad arddangos yn ymwneud yn llwyr â chanol Caerdydd, roedd angen iddo fod yn berthnasol i bobl o bob rhan o'r ddinas. Byddai cerddoriaeth wrth wraidd y digwyddiad felly byddai'r Bwrdd Cerddoriaeth yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod sefydliadau llawr gwlad yn cael eu cynrychioli mewn unrhyw ddigwyddiad arddangos.

Gofynnodd yr Aelodau am dargedau ac a oedd unrhyw dargedau penodol heblaw am yr Arena Dan Do a Digwyddiadau Unigryw y mae'r Cyngor yn gobeithio eu bwrw. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod targedau o ran cyfranogiad a nifer yr ymwelwyr mewn rhai lleoliadau ac roedd y rhain yn hirdymor. Esboniodd swyddogion fod Cyngor y Celfyddydau yn buddsoddi £20m yng Nghaerdydd ar hyn o bryd a bod ganddo dargedau penodol iawn sydd i gyd yn cael eu mesur. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw waith wedi'i wneud ar Effaith Economaidd Diwylliant yng Nghaerdydd. Esboniodd swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud ar ddadansoddi'r sector creadigol a digwyddiadau unigol ond ddim ar ddiwylliant ei hun. Ychwanegodd swyddogion y byddent yn amau cywirdeb unrhyw waith ar hyn gan fod nifer enfawr o dybiaethau. Mesurir effeithiau anuniongyrchol megis niferoedd ymwelwyr.

Credodd yr Aelodau ei bod yn bwysig gallu mesur llwyddiant a phennu blaenoriaethau, boed hynny'n fwy o ddigwyddiadau, mwy o ddiwydiannau creadigol, mwy o ymwelwyr neu bob un o'r rhain. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod diwylliant yn cael ei farnu mewn llawer o ffyrdd; credodd ei bod yn bwysig cael digwyddiad sydd wedi derbyn clod gan y beirniaid yng Nghaerdydd ac i gynyddu nifer yr ymwelwyr; a gallai sut mae mesur llwyddiant hyn fod yn bwnc diddorol ar gyfer grŵp gorffen-a-gorchwyl.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd 3 prif flaenoriaeth y Cyngor. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai'r blaenoriaethau cyfredol oedd diogelu dyfodol hirdymor y Theatr Newydd, rhoi llais i'r sector trwy sefydlu Bwrdd Cerdd ac ymateb i'r pwyntiau yn yr adroddiad ar Ddiplomyyddiaeth Sŵn.

Nododd yr Aelodau, er mwyn cyflawni'r hyn oedd ei angen, fod angen buddsoddi a bod partneriaeth yn allweddol; roedd gan yr Ymchwiliad Dinasoedd Diwylliannol lawer o argymhellion diddorol ar gyfer buddsoddi megis cyfraniadau a threth twristiaid; gofynnodd yr Aelodau a oedd y rhain wedi'u hystyried. Esboniodd swyddogion eu bod yn gweithio gyda Dinasoedd Craidd a bod y Prif Weithredwr yn chwilio'n Genedlaethol a bod y dreth twristiaid yn uchel ar yr agenda. Gwaith ar y

gweill oedd hwn ac nid oedd yn agos at gam datblygu polisi eto; roedd yn bwysig ystyried argymhellion yr Ymchwiliad Dinasoedd Diwylliannol yn gyntaf.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn mynegi arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

34 : STRATEGAETH DIWYLLIANT A CHERDDORIAETH – SY'N CYNNWYS ATODIAD CYFRINACHOL 5

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd; Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau; Jon Day - Rheolwr Gweithredol a Ruth Cayford – Rheolwr Diwylliant a Diwydiannau Creadigol i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon yw craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet ar gamau nesaf datblygu Strategaeth Cerddoriaeth. Mae'r adroddiad yn nodi'r ymateb arfaethedig i argymhellion yr adroddiad ar Ddiplomyyddiaeth Sŵn yr ystyriodd y Pwyllgor ym mis Ebrill 2019. Mae hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i sefydlu Bwrdd Cerdd. Cwmpas y craffu yw archwilio'r rhain, yr argymhellion i'r Cabinet, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, yr amserlen a'r camau nesaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau Cabinet i wneud datganiad ac ynddo diolchodd i'r Pwyllgor am ei graffu blaenorol ar yr eitem hon. Roedd wedi bod yn gefnogol iawn ac yn ddarn o waith trawsbleidiol da. Esboniodd bod y Cabinet ym mis Ebrill wedi nodi'r adroddiad ac wedi ymrwymo i adroddiad arall ar y camau nesaf. Roedd cyfres o argymhellion wedi bod yn yr adroddiad ar Ddiplomyyddiaeth Sŵn ac mae'r Cyngor yn ymateb i'r rhain er y caiff y rhan fwyaf ohonynt eu cyfeirio at y Bwrdd Cerdd. Roedd Cylch Gorchwyl wedi'i chreu ar gyfer y Bwrdd Cerdd gan ei bod yn bwysig cael eglurdeb o ran rolau ayyb. Y dyddiad cau ar gyfer datgan buddiannau oedd dydd Gwener diwethaf. Ni ellir gwneud unrhyw wybodaeth yn gyhoeddus nes y gwneir penderfyniadau ac ni fyddai cyhoeddiad nes i'r person olaf dderbyn ei swydd. Roedd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf a osodwyd.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Strategaeth Cerddoriaeth ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau, gan eu hatgoffa bod Atodiad 5 yn gyfrinachol a pe bai unrhyw gwestiynau ar hyn, wedyn byddai angen cynnal sesiwn gaeedig.

Gofynnodd yr aelodau beth fyddai llwyddiant i'r Bwrdd Cerdd a sut y byddai'n cael ei fesur. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod angen cynllun ar gyfer y 12/24 mis nesaf; byddai'r 6 mis cyntaf yn cynnwys gweithio ar fap ffordd. Yn gyntaf, byddai'r Bwrdd yn edrych ar ymateb i'r Adroddiad ar Ddiplomyyddiaeth Sŵn. Ar ôl cael ymatebion manwl i'r argymhellion, byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor cyn mynd i'r Cabinet.

Nododd yr Aelodau fod adroddiadau wedi'u derbyn gan fathau penodol o sioeau yn teimlo eu bod wedi'u gwahaniaethu yn eu herbyn yng Nghaerdydd, a gofynnodd yr Aelodau a oedd angen edrych ar drwyddedu, neu hyd oed gael adolygiad llawn. Nododd yr Aelod Cabinet y feirniadaeth oedd wedi'i derbyn ynghylch y Swyddog Heddlu trwyddedu. Credodd fod angen cynrychioli pob genre a'i bod yn bwysig gweithio gyda'r sector ar hyn. Roedd yr Heddlu wedi bod yn edrych ar wybodaeth,

gan feddwl y byddai problemau ac wedyn gwrthwynebu trwyddedau; dyma bwynt allweddol gafodd ei wneud gan Ddiplomyddiaeth Sŵn.

Soniodd yr Aelodau am lygredd sŵn a gofynnon nhw sut byddai'r Bwrdd yn gallu delio gyda'r materion hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn cydymdeimlo gyda lleoliadau cerddoriaeth sefydlog y mae datblygiadau preswyl wedyn yn cael eu hadeiladu o'u cwmpas. Mae adroddiad Diplomyddiaeth Sŵn wedi'i rannu gyda'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ac mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn am ymateb ganddynt ynghylch y materion sy'n berthnasol iddynt.

Wrth drafod Trafnidiaeth, nododd yr Aelodau, ar ôl digwyddiadau mawr, fod problemau weithiau gyda phobl yn cyrraedd eu cartrefi a gofynnon nhw pa waith fyddai'n cael ei wneud o ran amseroedd trenau ac ati. Esboniodd yr Aelod Cabinet eu bod yn gweithio'n agos gyda Network Rail ar strategaethau i wneud llif pobl yn llai problematig. Mae pethau'n well ac unwaith y bydd y gyfnewidfa drafnidiaeth ar waith, gwelir mwy o welliannau. Ychwanegodd fod y sefyllfa bob amser yn datblygu a bod y Cyngor bob amser mewn trafodaethau gyda'r sefydliadau trafniadaeth perthnasol. Ychwanegodd swyddogion na all y Cyngor gyflawni pob datrysiad ond bod materion megis oriau gyrwyr/arwyddo ac ati i'w hystyried hefyd. Hefyd roedd yn ddeuoliaeth gan fod pobl am sicrhau eu bod yn gallu cyrraedd adref cyn bwcio tocynnau i ddigwyddiadau, ond mae angen i Network Rail weld galw am drenau hwyrach cyn iddynt eu trefnu. Mae gan ddigwyddiadau mawr Strategaeth Drafnidiaeth ac roedd angen edrych ar amserlenni ar gyfer trafniadaeth gyhoeddus; byddai cyfle i ymestyn yr amserlen gyda'r Metro, ac roedd trafodaethau ar y gweill gyda'r Cyngor yn lobio am oriau ychwanegol hyd yn oed ar gyfer digwyddiadau penwythnos arferol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Lywodraethu'r Bwrdd, y Cylch Gorchwyl a Safonau Nolan a gofynnon nhw beth sy'n digwydd os daw un aelod yn drafferthus, heb ddatgan buddiannau sy'n gwrthdaro ac ati, ac a fyddai'r Bwrdd neu'r Cabinet yn gyfrifol am hyn. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod y Cylch Gorchwyl yn nodi hyn ac mai Cadeirydd y Bwrdd (arweinydd y Cyngor) fyddai'n gyfrifol am ddiswyddo.

Nododd yr Aelodau, o ran Cyllid o bersbectif Cyngor, mai'r Cyngor fydd yr ysgrifenyddiaeth, a gofynnodd sut fyddai disgwyliadau aelodau'n cael eu rheoli o ran syniadau arloesol ac ati, o ystyried y ffaith nad oes cyllid ar gael. Esboniodd yr Aelod Cabinet y bydd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o hyn a'u bod wedi cael gwybod na all y Cyngor ariannu cymaint ag oedd yn gallu 20/25 o flynyddoedd yn ôl; maent hefyd yn deall ei bod yn bartneriaeth a phwysigrwydd cydweithio i gyflawni pethau. Bydd aelodau'r Bwrdd wedi dod i'r arfer â bod mewn sefydliadau mawr a'r ffyrdd cydweithredol o weithio. Ychwanegodd y swyddogion fod llawer o arian yn cael ei wario yn y sector o ffynonellau amrywiol ac mae angen gwneud y mwyaf ohonynt ar gyfer Caerdydd.

Gofynnodd yr Aelodau a yw swyddogion yn hyderus y gallai'r Bwrdd gael ei gefnogi'n weinyddol gydag adnoddau sy'n bodoli eisoes. Esboniodd y swyddogion eu bod yn hyderus y gallent ddarparu ysgrifenyddiaeth ac yr edrychir ar unrhyw beth arall ar sail achosion unigol ar y pryd.

Nododd yr Aelodau y cyfeiriad at Neuadd Gynadledda o'r Radd Flaenaf a cheision nhw gael sicrwydd mai Neuadd Dewi Sant fyddai hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn wir, mae dal â'r un sgôr, mae dal yn un o'r neuaddau gorau yn y byd, mae ond angen bach o waith cynnal a chadw.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod angen iddynt ystyried Atodiad 5 mewn sesiwn gaeedig i drafod gwybodaeth wedi'i heithrio, yn unol â pharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Yn unol â hynny, cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar yr adeg hon.

PENDERFYNWYD: -

- I. bod aelodau'r Cyhoedd a'r wasg yn gadael yr ystafell bwyllgor. Y byddai gweddill yr eitem yn cael ei drafod mewn sesiwn gaeedig a byddai'r gweddarddedu'n cael ei oedi a'i ailddedchrau ar ddiwedd y sesiwn gaeedig.

Y câi barn y pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

35 : THEATR NEWYDD - YN CYNNWYS ATODIAD A AC ATODIADAU 1, 2, 3, 4 A 5 SY'N GYFRINACHOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd a Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet ar ganlyniadau'r broses farchnata wedi'i chynnal i sicrhau gweithredwr theatr i rentu, gweithredu a chynnal y Theatr Newydd.

Cwmpas y craffu oedd archwilio hyn, yr argymhellion i'r Cabinet, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, yr amserlen a'r camau nesaf.

Atgoffwyd yr Aelodau fod Atodiad A ac Atodiadau 1 i 5 Atodiad B yn gyfrinachol a pe bai unrhyw gwestiynau ar y rhain byddai angen cynnal sesiwn gaeedig.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ynndo dywedodd ei fod yn falch i fod yn y sefyllfa gyfredol. Roedd yn gyfforddus gyda'r argymhellion. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig nodi, er mwyn cyrraedd y sefyllfa gyfredol, bod yr holl ddewisiadau wedi'u hystyried, gan gynnwys arian gan elusennau, ymarfer caffael ac ati, ond nid oedd unrhyw un ohonynt wedi cyflawni'r arbedion sydd eu hangen nac wedi sicrhau cynaliadwyedd y Theatr Newydd. Dywedodd mai'r hyn oedd gerbron y Pwyllgor o bosibl oedd cynnig i ddiogelu'r Theatr Newydd am y 25 o flynyddoedd nesaf, heb gymhorthdal ac incwm sylweddol. Byddai'r Cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r to a strwythur allanol yr adeilad ac roedd cyfle i Fuddsoddi Cyfalaf yn yr adeilad. Roedd ymrwymiad i wella theatr cerdd a bale; byddai'r strwythur staff cyfredol yn cael ei gadw gyda pherthnasau Undeb Llafur da a byddai'r rhaglen wirfoddoli yn cael ei chadw hefyd. Yn y bôn, roedd yn brydles eiddo, felly roedd ychydig llai o reolaeth dros raglennu ond mae'r cwmni arfaethedig eisoes yn cynnig llawer o'r pethau sydd ar y rhaglen gyfredol.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar y wybodaeth gyhoeddus.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y ffigurau mewn perthynas â'r Ardreth Annomestig Genedlaethol ar gyfer y Theatr Newydd a dywedwyd wrthynt eu bod tua £100,000 ond byddai'r Swyddogion yn cadarnhau'r ffigur ac yn rhoi gwybodaeth gywir.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Bantomeim y Nadolig a'r ffaith ei fod yn creu'r swm mwyaf o refeniw yn ystod y flwyddyn gyfan. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau nad oes bygythiad i'r Pantomeim o gwbl.

Cyfeiriodd yr Aelodau at raglennu ac roedd pryderon ganddynt am y cyfeiriad at lai o reolaeth ac roeddent yn bryderus am gollu cynyrchiadau drama o'r safon uchaf a gofynnon nhw a fyddai'r rhaglennu'n cael ei fonitro gan y Cyngor. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r cwmni arfaethedig yn debygol o ddenu mwy o gynyrchiadau o'r safon uchaf gan fod ganddo ei adain cynhyrchu ei hun.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod angen iddynt ystyried Atodiadau 1 i 6 mewn sesiwn gaeedig i drafod gwybodaeth wedi'i heithrio, yn unol â pharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Yn unol â hynny, cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar yr adeg hon.

PENDERFYNWYD: -

- I. bod aelodau'r cyhoedd a'r wasg yn gadael yr ystafell bwyllgor. Y byddai gweddill yr eitem yn cael ei drafod mewn sesiwn gaeedig a byddai'r gwe-ddarlledu'n cael ei oedi a'i aildechrau ar ddiwedd y sesiwn gaeedig.

Y câi barn y pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

36 : STRATEGAETH DDIWYDIANNOL DWYRAIN CAERDYDD

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu a Jon Day, Rheolwr Gweithredol i'r cyfarfod.

Atgoffwyd yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd arfaethedig a'r camau nesaf o'i rhoi ar waith, gan gynnwys gofyn i'r Cabinet ystyried cefnogaeth bosibl ar gyfer datblygiad Parcfordd Caerdydd.

Cwmpas y craffu oedd archwilio'r Strategaeth Ddiwydiannol arfaethedig a'r camau nesaf o'i rhoi ar waith, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor a'r argymhellion i'r Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd ynddo fod y Weinyddiaeth yn cydnabod mewn Datganiadau Polisi ac Uchelgais Prifddinas mai Arc Ddeheuol Caerdydd, pe bai'n awdurdod lleol unigol, fyddai'r dlotaf yng Nghymru, er bod hyn wedi'i guddio gan yr hyn sydd wedi digwydd ym Mae Caerdydd. Nid oes unrhyw fuddsoddiadau sylweddol wedi bod yn Nwyrain Caerdydd ers hir; mae'n dioddef anhygyrchedd, Stryd Bute yw'r orsaf drenau fwyaf Dwyreiniol. Nododd y CDLI fod gan yr ardal y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n weddill sydd ar

gael a'r angen i fwyhau hygrychedd ac i alluogi pobl sy'n byw yno i allu cyrraedd Canol y Ddinas. Roedd yn bwysig agor Dwyrain y Ddinas dros y degawd nesaf a byddai'r Metro'n rhan annatod o hynny yn ogystal â datblygu Gorsaf Drenau Parcfordd Caerdydd a fyddai'n creu catalydd ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth newydd yn Nwyrain y Ddinas. Ysgrifennwyd y Strategaeth i gyd-fynd â Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, er mwyn rhoi hwb i gyfleoedd o gael adnoddau sydd ar gael i adeiladu'r seilwaith sydd ei angen i ryddhau potensial i gynig cyfleoedd

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Nododd yr Aelodau na soniodd adroddiad newyddion diweddar Trafnidiaeth Cymru am Barcfordd Caerdydd wrth drafod gorsafoedd newydd yn cael eu hadeiladu a hefyd na soniodd am Heol Casnewydd na Rover Way chwaith. Ystyriodd yr Aelodau fod y rhain yn feysydd allweddol a gofynnon nhw pa mor hyderus oedd yr Aelod Cabinet y caiff Parcfordd Caerdydd ei gyflawni. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn hyderus y gallai fod, roedd wedi siarad â thîm Parcfordd Caerdydd a fyddai'n cyflwyno ceisiadau cynllunio yng Ngwanwyn 2020 ac a oedd yn gweithio'n agos gyda chynllunwyr nawr o ran yr hyn sydd ei angen. Roedd yn falch fod Llywodraeth Cymru am fod yn rhan o'r project ac felly cymerodd y byddai'n helpu i'w gyflawni. Ond gwnaeth gydnabod bod datblygu'r strategaeth yn ddibynnol i raddau sylweddol ar ddatblygu seilwaith trafni fel rhan hanfodol. Mae gan y Cyngor y buddiant ariannol gan fod tir yn dod yn fwy gwerthfawr. Ychwanegodd y swyddogion fod Adroddiad y Cabinet yn cyfeirio at orsafoedd trenau yn y lleoliadau a nodwyd.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn dweud na fydd gan brojectau heb fanylion gwyrdd cryf gefnogaeth y Cyngor a gofynnon nhw sut gellir cyd-bwysu hyn yn erbyn rheoliadau cynllunio. Ildiodd yr Aelod Cabinet gan ddweud na all y Cyngor wneud llawer os yw pobl yn berchen ar y tir a bod cynigion yn bodloni meini prawf eraill, fodd bynnag pe bai'r project yn dibynnu ar gefnogaeth y sector cyhoeddus, heb fanylion gwyrdd cryf, ni fyddai'n ei chael.

Gofynnodd yr Aelodau pwy fyddai'n eistedd ar Is-bwyllgor y Cabinet a dywedodd yr Aelod Cabinet mai penderfyniad i'r Arweinydd oedd hyn ond teimlodd mai ef, yr Aelod Cabinet dros Drafniadaeth a Chynllunio Strategol a'r Arweinydd yn fwy na thebyg fyddai'n eistedd arno.

Gofynnodd yr Aelodau am y mecanwaith ac a fyddai'r adroddiadau'n mynd i'r Cabinet i gael eu dilysu neu a fyddai dirprwyaethau i'r is-bwyllgor er mwyn cyflawni'r strategaeth. Disgwyliodd yr Aelod Cabinet y byddai'n cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

Nododd yr Aelodau fod llawer o waith i'w wneud a bod llawer o'r gwaith hwn wedi'i ragweld gan fuddsoddiadau, a gofynnon nhw pa mor hyderus oedd yr Aelod Cabinet y gellir ei gyflawni. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi cael sgysiau gyda gwleidyddion yn Llywodraeth Cymru, perchenogion busnes, arweinwyr yn y maes strategaeth a bod llawer o gefnogaeth dros yr hyn oedd yn ceisio cael ei gyflawni. Roedd yn gobeithio y bydd gan y sector preifat gynigion i'w ffitio i mewn i'r strategaeth y bydd yn cyflawni ei hun. Gallai arian gael ei gyfrannu gan y sector cyhoeddus. Roedd ymrwymiad cynnar i wella'r seilwaith trafniadaeth. Roedd angen pont dros Dredelerch a Llanrhymini i mewn i'r ardal Parcio a Theithio ym Mhentwyn ac roedd angen partner preifat ar gyfer hyn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod y Strategaeth Drafnidiaeth yn gysylltiedig â'r Strategaeth Ranbarthol ehangach sy'n cynnwys hybu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer cymunedau'r cymoedd a gofynnon nhw sut oedd Caerdydd yn gweithio gyda'r Prifddinas-ranbarth/Bargen Ddinesig. Ymatebodd yr Aelod Cabinet gan ddweud ei fod yn hyderus o ran Parcfordd Caerdydd yn creu manteision ar gyfer cymunedau'r cymoedd. Nododd y dylai rheilffordd Glynebwy gysylltu â Pharcfordd Caerdydd ac roedd trafodaethau gydag Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd ar gydweithio gan mai Casnewydd oedd yr ardal dwf amlwg nesaf. Roedd yn bwysig cael y Metro'n gywir ac yn gweithio'n dda a bod yno ddim ond un newid o Gaerdydd Ganolog i Barcfordd Caerdydd; byddai angen gwella'r ffordd i wasanaethu hyn a byddai Caerdydd yn edrych i'r Fargen Ddinesig am gymorth. Ychwanegodd y Swyddogion y byddent hefyd yn agor llinellau wrth gefn a nwyddau gan groesi llinellau i greu llinellau parhaus. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei fod yn hyderus o ran yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y project, roeddent wedi nodi'r mecanwaith lle y gellir defnyddio Ardreth Annomestig Genedlaethol ychwanegol wedi'i chynhyrchu i wella'r seilwaith sy'n ei wasanaethu.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gyfleoedd eraill ar gyfer twristiaeth werdd wedi'u nodi yn y safle. Dywedodd y Swyddogion y byddent yn agor y llwybr cerdded/beicfordd yn agosach at yr arfordir. Dywedodd yr Aelod Cabinet eu bod yn gobeithio datblygu projectau ynni gwyrdd modern a fyddai'n dod yn atyniadau i ymwelwyr; roedd twristiaeth busnes hefyd yn cael ei hystyried, gyda meddwl creadigol roedd llawer o gyfleoedd.

Nododd yr Aelodau nad yw meddwl creadigol bob amser yn amlwg mewn Awdurdodau Lleol a gofynnon nhw a oedd hyn yn gyfle i Gaerdydd arwain y ffordd. Cytunodd yr Aelod Cabinet y gallai fod yn gyfle, dywedodd, pan fyddai'r strategaeth yn cael ei lansio, y byddent yn gwahodd y byd i ddod i Gaerdydd. Roedd am i Gaerdydd fod yn Awdurdod datblygol sy'n croesawu syniadau da ac yn cyflawni cynlluniau/projectau blaenllaw gyda phartneriaid. Ychwanegodd y Swyddogion fod y tirlun wedi'i adael ar ôl o'r defnydd diwydiannol blaenorol yn cynnig cyfle gwych i lanhau'r tirlun a chyflawni newidiadau amgylcheddol.

Trafododd yr Aelodau'r trac sgrialu/beic modur a dywedodd y Swyddogion ei fod ar agor o hyd a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n llawn gan y Cyngor oedd yn edrych ar fargen gyda chwmni i lanhau'r safle ar gyfer project amgylcheddol a byddai rhan o'r fargen yn cynnwys ail-leoli'r cyfleuster sgrialu/beic modur.

Gofynnodd yr Aelodau am amserlenni a phryd oedd yn debygol y byddai'r strategaeth yn cael ei chwblhau. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn broject 20 mlynedd. Gan edrych ar y raddfa a'r gwerth, mae modd ei gymharu â chydran amhreswyl Bae Caerdydd.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn mynegi arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

37 : PENTREF CHWARAEON RHYNGWLADOL - CAMAU NESAF -
ATODIADAU 4 A 5 SY'N GYFRINACHOL

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd galluogi craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet ar y strategaeth ddatblygu arfaethedig ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

Cwmpas y craffu oedd archwilio'r prif ffactorau sy'n siapio cynlluniau i'r dyfodol a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â chynlluniau adfywio ehangach Bae Caerdydd, y tybiaethau ariannol yn yr adroddiad, a oedd unrhyw risgiau i'r Cyngor, yr amserlen, y camau nesaf a'r argymhellion i'r Cabinet.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Atodiadau 1 i 5 Atodiad A yn gyfrinachol a phe bai unrhyw gwestiynau ar y rhain byddai angen cynnal sesiwn gaeedig.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ynddo dywedodd i hyn i gyd ddechrau yn 1998, roedd wedi bod yn broject anodd ei symud ymlaen oherwydd y drafferth i gael tirdaliadau gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd oedd am i'r ardal fod yn un gwbl breswyl gyda blociau fflatiau uchel. Wedyn cafodd tir ei drosglwyddo i Awdurdod Datblygu Cymru ac roedd trafferth i'w gael ar ôl hynny; roedd gofynion adfer er mwyn iddo fod yn dir y gellir datblygu arno. Roedd anawsterau pellach gyda phrojectau unigol fel y Llawr Sglefrio a Phwll Rhyngwladol. Roedd yn gobeithio bod y Cyngor bellach mewn sefyllfa i gael tirdaliadau gyda phartneriaid i gyflawni uchelgeisiau ar gyfer gorynys y Bae.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Gamau Nesaf y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau lle y byddai'r gwesty'n cael ei leoli a dywedwyd wrthynt ar lan y dŵr o bosibl.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cynllun wedi'i fodelu ar rywle arall a dywedwyd wrthynt fod swyddogion wedi edrych ar lawer o enghreifftiau ledled y byd a phartneriaid sy'n gweithio yn yr UDA a'r Dwyrain Canol. Yn fwy lleol roeddent yn edrych ar Belfast (Vertigo), ond byddai hyn yn unigryw i'r DU.

Credodd yr Aelodau fod angen ar yr ardal le agored, ardaloedd ar gyfer cerdded a beicio a pharc gyda choed a llwyni. Nododd yr Aelodau fod y cynlluniau'n dangos datblygiad hyd at lan y dŵr ond credon nhw mai'r uchelgais oedd cael llwybr beicio o gwmpas y Bae. Esboniodd yr Aelod Cabinet y byddai'r llwybrau cerdded i gerddwyr ar wahân i'r ardaloedd Beiciau/Ceir; nid oedd yn bosibl i feicwyr fod â mynediad llwyr, roedd angen rhywfaint o wahaniad, i fodloni anghenion y rheiny â namau ar eu golwg a rhai anabledau eraill.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Gymuned a Synnwyr Lle a phwysigrwydd y rhain i drigolion sy'n byw yno; byddai'n bwysig iddynt gael rhywle heblaw am fariâu a bwytai ac ati. Esboniodd yr Aelod Cabinet y byddai manau gwyrdd a choed; credodd ei bod yn bwynt dilys bod diffyg cymuned mewn rhai datblygiadau megis yr Harbwr Mewnol. Cytunodd i feddwl am barc poced neu ganolfan gymunedol neu le cymunedol arall. Credodd y gallent geisio greu datrysiad ar gyfer hyn ac efallai gysylltu â pharc cyfredol Grangemoor. Ychwanegodd y swyddogion fod y cynllun cyfredol ar gyfer

Cardiff Pointe yn cynnwys parc bach a bod Pont y Werin yn cynnig mynediad at barc ar ochr arall yr afon.

Gofynnodd yr aelodau sut y gellir cyflawni cysylltiadau â Chanol y Ddinas a chael trafndiaeth gyhoeddus yn teithio i mewn iddo. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn wedi'i drafod gyda chydweithwyr a'u bod wedi archwilio'r posibilrwydd ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio megis Croes Cwrlwys neu Gyffordd 33. Pe gellir cynnig parcio i fwrdd a defnyddio bws, gallai helpu i danategu'r costau ariannol, ond roedd angen sicrhau nad ydynt yn achosi traffig ar yr A4232, roedd angen archwilio datrysiadau ochr yn ochr â'r datblygiad a thrafnidiaeth ar y dŵr oedd un o'r syniadau hyn.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn mynegi arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

38 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim.

39 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14 Tachwedd 2019 am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 pm